# Cynllunio a chynnal ymchwil ar ran y gwasanaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr datblygu gyrfa.

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynllunio a chynnal ymchwil ar ran y gwasanaeth ar wybodaeth ac ymarfer datblygu gyrfa yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, er mwyn gwella'r wybodaeth a'r adnoddau sydd ar gael i unigolion ac ymarferwyr. Gallai'r ymchwil ymwneud â theori ac ymarfer wrth ddatblygu gyrfa neu'r marchnadoedd dysgu a llafur.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
sicrhau eich bod yn deall y brîff ymchwil, yr wybodaeth sy'n ofynnol, sut bydd yn cael ei defnyddio a sut mae angen ei chyflwyno wrth gynllunio ymchwil ar ran y gwasanaeth
2.
nodi a sicrhau mynediad i adnoddau sy'n caniatáu dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd yn gywir
3.
cymhwyso dulliau ymchwil priodol a moesegol i gasglu gwybodaeth wrth gynnal ymchwil ar ran y gwasanaeth
4.
sicrhau bod y data a gesglir yn berthnasol i nodau'r cynllun ymchwil
5.
coladu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth sy'n bodloni gofynion y brîff ymchwil
6.
cadw cofnod o ffynonellau, technegau chwilio a strategaeth ynghyd â chanlyniadau eich ymchwil, sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a gweithdrefnau sefydliadol
7.
dadansoddi a lledaenu'r canlyniadau
8.
canfod ffynonellau gwybodaeth pellach posibl a gwerthuso eu perthnasedd a'u priodoldeb
9.
gwerthuso'r gweithgaredd ymchwil a chynllunio gwelliannau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol yn ôl y galw
10.
gweithredu mewn ffyrdd sy'n glynu at yr ymarfer moesegol sy'n ofynnol o fewn eich sefydliad neu eich proffesiwn
11.
herio unrhyw ragfarn, defnydd o stereoteipiau, camwahaniaethu ac ymddygiad anfoesegol neu ormesol
12.

hyrwyddo cynhwysedd, amrywiaeth a chyfle cyfartal

13.

cynnal cyfrinachedd a diogeledd gwybodaeth unigol sy'n bodloni'r gofynion cyfreithiol a'r polisïau sefydliadol perthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
y gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal
2.
gofynion brîff ymchwil
3.
sut mae cymhwyso ymchwil a dadansoddi yn eich cyd-destun gwaith
4.
ymarfer ymchwil effeithiol a'r technegau, yr offer a'r ffynonellau sydd ar gael i'ch cyd-destun gwaith
5.
sut defnyddir data ymchwil gan sefydliadau
6.
sut mae gwerthuso perthnasedd, ansawdd a defnyddioldeb data ymchwil
7.
offer a thechnegau ymchwil sy'n briodol ar gyfer eich maes arbenigol
8.
sut mae rheoli'r broses ymchwil yn drefnus, fel bod modd cyfeirio at ffynonellau ac ailadrodd gwaith yn ôl y galw
9.
sut mae gwerthuso gweithgareddau ymchwil gan ddefnyddio adborth cydweithwyr a'u mesur yn erbyn canlyniadau
10.
egwyddorion moesegol a chodau ymarfer moesegol proffesiynol perthnasol, a chanlyniadau peidio â chadw atynt
11.
ffiniau cyfrinachedd, pryd mae'n briodol datgelu gwybodaeth gyfrinachol i eraill a'r prosesau sy'n ofynnol

Cynllunio a chynnal ymchwil ar ran y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | CDI |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Tach 2014 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2016 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | CDI |
| **RCU gwreiddiol** | CDICRD17 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Addysg a hyfforddiant, Galwedigaethau Proffesiynol, Rheolwyr ac arweinwyr sydd â chyfrifoldeb am rhyngasiantaethol, gweithwyr llinell gymorth, Ymgynghorwyr Gyrfaoedd ac Arbenigwyr Cyfarwyddyd Galwedigaethol, Galwedigaethau Gwasanaethau Cwsmeriaid, Hyfforddwr Tywys Gweithredol, Rheolwyr Swyddogaethol, Staff Adnoddau Dynol, Mentor Dysgu, Rheolwyr personel, Hyffordiant a chysylltiadau diwydiannol, Gweithwyr Ymchwil Proffesiynol, Addysgwyr Proffesiynol |
| **Cyfres/Set** | Datblygu Gyrfa |
| **Geiriau Allweddol** | cyngor, dyhead, gyrfa, client-ganolog, datblygiad, addysg, cyflogaeth, cydraddoldeb, moesegol, nodau, grŵp, unigolyn, gwybodaeth, marchnad lafur, dysgu, symbyliad, anghenion, rhwydweithio, amcan, partneriaeth, cynllunio, ymarfer, atgyfeirio, myfyrio |